



cyn i chi fynd

Ydych chi wedi meddwl beth i'w wneud
gyda'ch ailgylchu a'ch gwastraff pan
symudwch allan ar ddiwedd y tymor?

Mae'r llyfryn hwn yn amlinellu'r
opsionau cyfleus sydd ar gael i chi



GWEITHIO DROS GAERDYDD,
GWEITHIO DROSOCH CHI



Cofiwch, os byddwch yn ei adael ar ôl, byddwch yn derbyn dirwy

Bydd ei adael ar y palmant ar y dyddiad symud allan heb drefniant
o flaen llawn yn arwain at Hysbysiad Cosb Benodedig o hyd at £100

Meddyliwch ymlaen llaw

Cyflwynwch eich ailgylchu a'ch gwastraff ar eich diwrnod casglu arferol. Sicrhewch eu bod ar y palmant heb fod yn gynharach na 4.30pm ar y noson cynt (dydd Mawrth) – dychwelwch yr holl finiau/cadi/sachau wedi'u gwacáu i'r eiddo erbyn 9am ar ddydd Iau

Dyddiadau casglu yn Cathays/Gabalfa/Pen-y-lan

9 Mai*, 22 Mai, 5 Mehefin, 19 Mehefin



15 Mai*, 30 Mai, 12 Mehefin, 26 Mehefin



Dyddiadau casglu yn y Rhath (Plasnewydd)

9 Mai*, 22 Mai, 5 Mehefin, 19 Mehefin



15 Mai*, 30 Mai, 12 Mehefin, 26 Mehefin



*Gwyliau'r Banc - bydd y casgliad ddiwrnod yn hwyrach

Angen cael eich atgoffa? Lawrlwythwch yr ap!

Mae'r cyngor wedi datblygu ap i'ch helpu i beidio â cholli casgliad gwastraff fyth eto.

Gallwch hyd yn oed roi gwybod am dipio anghyfreithlon.

Chwiliwch am "Cardiff Gov" yn

Google Play Store neu Apple App Store.



Cofiwch fod sawl ffordd y gallwch ailgylchu'r gwastraff rydych yn ei greu tra'ch bod yn symud allan. Gallwch ailgylchu llawer o eitemau yn eich casgliadau ailgylchu ymyl y ffordd arferol a gallwch gyflwyno cymaint o ailgylchu ag sydd ei angen arnoch. Mae bagiau ailgylchu am ddim a gallwch eu casglu o lawer o leodd.

Ewch i www.caerdydd.gov.uk/ailgylchu am leoliadau



Casgliadau gwastraff swmpus

A WYDDECH CHI: Gall y Cyngor hefyd gynnig casgliadau am ddim ar gyfer llawer o eitemau mawr e.e. oergelloedd, peiriannau trydanol mawr.

Mae angen trefnu'r casgliad o flaen llaw trwy gysylltu â Chysylltu â Chaerdydd ar (029) 2087 2088

Nid yw pob eitem fawr yn cael ei chasglu am ddim. Gallwch gael mwy o wybodaeth am yr eitemau y codir tâl amdanynt yn www.caerdydd.gov.uk/ailgylchu

Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

Gallwch hefyd waredu ailgylchu a gwastraff am ddim mewn Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC). Cyn i chi bacio eich car i adael, beth am fynd ar drip i'r CAGC i ailgylchu gweddill eich eitemau?


Ceir yno sgipiau ar gyfer mwy na 20 o wahanol ddeunyddiau – mae'r rhestr lawn o ddeunyddiau yn www.caerdydd.gov.uk/CAGC

Os oes angen i chi ddefnyddio fan, rhaid i chi drefnu hwn o flaen llawn a gallwch fynd i CAGC Bessemer Close yn unig.

Sicrhewch eich bod yn didoli eich holl wastraff cyn dod i'r CAGC, gofynnir i chi wahanu'r holl ddeunyddiau a'u rhoi yn y sgip cywir. Bydd hefyd angen i chi ddod â phrawf o fyw yng Nghaerdydd. Bydd eich cytundeb tenantiaeth yn iawn, neu fil trydan/nwy/dŵr diweddar.



Yn Ffordd Lamby mae eich CAGC agosaf



Trefnu casgliad ychwanegol

Mae'r Cyngor hefyd yn gallu cynnig casgliad untro ar gyfer gwastraff, ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos. Rhaid ei drefnu o flaen llaw, a chodir tâl amdano.

I drefnu dyfynbris, cysylltwch â'r tîm ar (029) 2087 2088 neu yn wheeliebin@caerdydd.gov.uk. Mae'r tîm ar gael ddydd Llun-dydd Gwener rhwng 8.30am a 4.30pm.

Cyfrannu eich eitemau

Ydych chi wedi cyfrannu eich eitemau i'r cynllun elusen i fyfyrwyr?

Ewch i <https://www.cardiffdigs.co.uk/cy/gwastraff-ac-ailgylchu/carueichcartrefwrthadael/> i ddod o hyd i'ch man cyfrannu agosaf, a rhestr o'r eitemau a dderbynnir.

Gall eitemau'r cartref, eitemau trydanol a dodrefn mewn cyflwr da y gellir eu hail-werthu gael eu casglu gan yr YMCA am ddim. I ddysgu mwy, ffoniwch 02920 495114."

